

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 3ydd o Ragfyr, 2020 drwy 'Zoom', am 8:00y.h.

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cyngorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Anwen Jones, Ceri Jones, Tegid Jones, Sian Angharad Parry, Sion Aled Jones, Naomi Jones a Gareth O.Davies a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Angela Williams, Darren Morley, a William Ifor Hughes.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5ed o Dachwedd 2020. (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 03.12.2020).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Tachwedd 2020 – (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 03.12.2020).

4. **Datgan buddiant personol-neb.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Cyngor Gwynedd – cais cynllunio yn y gymuned**

Cais Rhif:C20/0149/41/L - Gwynfryn Plas, Ffordd Rhoslan, Llanystumdwy-trosi ac addasu adfail yn 25 uned byw. **Gwrthod.**

Gwrthwynebu'r datblygiad yma am y rhesymau canlynol:

1. Nid yw yn cydymffurfio hefo Polisi Tai 7 y Cynllun Datblygu (t 140) ar gyfer Trosi adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad agored i ddefnydd preswyl. Mae'r datblygiad i fod i gydymffurfio â'r 5 pwynt yn y polisi yma. Pwynt 1 y polisi ydi "Bod tystiolaeth nad yw defnydd cyflogaeth o'r adeilad yn hyfyw". Nid oes tystiolaeth o hyn yn y dogfennau sydd wedi cael ei dangos hefo'r cais.

2. "Bod y datblygiad yn darparu uned fforddiadwy ar gyfer angen lleol". Nid oes sôn am unedau fforddiadwy nag unrhyw arolwg a wnaed o'r angen am unedau o'r fath.

3. "Bod y strwythur yn un cadarn". Nid oes sôn fod arolwg strwythurol o'r adeilad wedi ei wneud yn barod ac mae pawb yn ymwybodol fod na ddifrod mawr wedi ei wneud i'r lle ar ôl y tân. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod yr un wal yn gadarn.

4. 2 Polisi Tai 9 Adran B (t143)

Rhif 9 "Bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy – sef yn agos i ganolfan gwasanaethol neu ar lwybr cludiant cyhoeddus". Nid yw yn cydymffurfio hefo'r naill na'r llall.

5. 3 Polisi Strategol PS 18 (t157), Pwynt 1. "Trothwy tai fforddiadwy" Ar gyfer trosi adeilad traddodiadol yng nghefn gwlad y trothwy ydi 100%. Nid oes dim sôn fod yr un o'r fflatiau yma am fod yn fforddiadwy, heb sôn am bob un ohonyn nhw.

6 Nid oes dim sôn am Ddatganiad Iaith Gymraeg hefo'r cais.

7. Ar y ffurflen gais, pwynt 21 Cyflogaeth, mae nhw'n sôn fod 5 yn cael eu cyflogi yno rwan ("existing employees") a 3 rhan amser. Nid ydym yn ymwybodol fod yna neb yn

gweithio yno ar hyn o bryd. Os mai fflatiau preswyl ydi'r bwriad, beth fyddai gwaith y bobol yma?

Felly i grynhoi, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio hefo sawl un o Bolisiau Cyngor Gwynedd ac fe ddylid ei wrthod.

7. **Biniau halen** o fewn y gymuned – mae 5 ohonynt:-

- Ger Gwyddfor, Chwilog.
- Pentyrch Uchaf, Llangybi.
- Rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan.
- Tan yr Erw, Lon Gefn, Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a derbyniwyd cadarnhâd fod digon ynddynt.

8. **Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog** - sefyllfa draenio. Mae'r Cynghorydd Aled Evans mewn cysylltiad hefo'r Adran Cynllunio ynglyn â'r mater.

Y sefyllfa bresennol oedd bod y mater - sef y cynllun draenio yn cael ei "ddwys ystyried" fel petae gan yr adran draenio tir. Pan fydd hynny wedi digwydd bydd yr adran honno yn rhoi eu barn ynghyd ac unrhyw argymhellion i'r adran gynllunio i roi penderfyniad terfynol. Ni dderbyniwyd mwy o wybodaeth. **Derbyn.**

9. **Bwrdd Rheoli O Ddrws i Ddrws** – derbyniwyd llythyr ganddynt yn gofyn am gynrychiolydd i ymuno â'r Bwrdd Rheoli a chyfrannu at lywio gwaith y cwmni. Cynigiwyd y Cynghorydd Angela Williams yn y cyfarfod blaenorol, ond roedd eisiau i'r Clerc holi mwy am beth oedd angen ei wneud gyntaf. **Y Clerc wedi derbyn manylion, ac mae 'r Cynghorydd Angela Williams wedi cytuno i ymuno â'r Bwrdd Rheoli.**

10. **Awyr Dywyll** – derbyniwyd ebost, yn holi os oedd diddordeb gan y Cyngor Cymuned fod yn ran o'r cynllun a chael statws Cymuned Awyr Dywyll. Dywedwyd fod Cyngor Gwynedd yn y broses o fod yn rhan o'r Parc Awyr Dywyll Gogledd Cymru ond y byddai'r broses yn cymryd tua dwy i dair mlynedd i'w gwblhau. **Oherwydd fod yr holl wybodaeth wedi cael ei anfon yn Saesneg, gofynwyd i'r Clerc gysylltu nol â nhw gan ofyn am y wybodaeth yn yr iaith Gymraeg.**

11. **Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor, Un Llais Cymru**- 25.11.2020 – fe wnaeth y Clerc fynychu'r cyfarfod (roedd y Cynghorydd Tegid Jones yn methu bod yn bresennol). Trafodwyd anawsterau'r 'covid' a'r effaith yr oedd wedi ei wneud ar waith y cynghorau. Eglurwyd fod cyflwyniad arbennig yn mynd i gael ei roi ar 10fed o Chwefror 2021 ar y dull newydd o archwilio. Dywedwyd fod mwy o sesiynau hyfforddiant yn cael ei cynnal tan fis Mawrth 2021. **Derbyn.**

12. **Sesiynau hyfforddiant o bell mis Rhagfyr 2020 – Un Llais Cymru** – Y gost yw £30.00, ond mae bwrsari i ad-dalu'r gost yn llawn. Nid oedd gan unrhyw Gynghorydd ddiddordeb mewn mynychu y cyrsiau, ond rhoddwyd caniatâd i'r Clerc wneud.

Materion yn y gymuned.

13. **Llanystumdwy**

a) **Pont Llanystumdwy – clirio tir y Cyngor yn Maenywern - Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Clifford Hughes i wneud y gwaith i dorri'r brigau sydd yn hongian dros y clawdd ar hyd y lon o'r bont am y bedd, ac roedd am wneud cyn gynted ag y gallai.**
Derbyn.

b) Lodge Gwynfryn - trethdalwyr yn holi os oes ffens wedi cael ei godi ar dir y Cyngor, ger mynedfa Plas Gwynfryn. Angen i'r Clerc anfon llythyr at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i holi pwy oedd perchennog y tir, a beth oedd y gwaith oedd yn mynd ymlaen yno.

14. **Rhoslan/Ynys**

15. **Chwilog**

a) Llywodraethwr Cymuned Ysgol Chwilog- y Cynghorydd Margaret Griffith wedi penderfynu peidio bod ar y corff llywodraethu am 4 mlynedd arall, felly bydd angen dewis rhywun arall. Diolchwyd i'r Cynghorydd Margaret Griffith am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd. Hefyd, fe awgrymwyd enw, a gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.

b) Ffordd rhwng Chwilog ac Afonwen -

Nos Iau 12.11.2020 drwy 'zoom', cynhaliwyd cyfarfod arbennig efo Mr Dylan Wynn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Traffig, Cyngor Gwynedd i egluro'r broses o ddenu am grant i gael llwybr.

Eglurodd fod Cyngor Gwynedd wedi ymgeisio am arian grant ar gyfer y prosiect penodol yma drwy'r ffynhonnell '*Siwrne Saff yn y Gymuned*', oherwydd mai hwn yw'r unig ffynhonnell fyddai'n 'ffitio'r' maen prawf ar gyfer y math yma o gynllun, a bod ysgol yn y pentref. Eglurodd nad oedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddianus i ddenu arian grant gan Llywodraeth Cymru eleni ar gyfer datblygu'r cynllun.

- Dywedodd fod y Cyngor yn derbyn gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru i wneud cais am arian. Wrth wneud cais, mae'n golygu llawer o waith ag amser a thua 20 tudalen o wybodaeth, a'r dyddad cau fis Ionawr bob blwyddyn.
- Yna, bydd penderfyniad yn arfer cael ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol honno. Mis Mai 2020 wnaed y penderfyniad eleni.
- Mae'r grantiau yma ar gael i'r 22 awdurdod lleol, nid yw pob awdurdod yn rhoi cais, ond mae cryn gystadleuaeth hefo'r cynghorau mawr.
- Mae'n anodd iawn gwneud cais ddwywaith o dan yr un cynllun, onibai fod newidiadau sylweddol i'r cais.
- Dywedodd wedyn y byddai modd gwneud cais o dan gynllun arall, sef Deddf Teithio Llesol, sef 'Mapiau Teithio Llesol'.
- Dywedodd nad oedd yn bosib gwneud pythau o'r lon dros gyfnod o amser, oherwydd ei fod y anodd o ran ansawdd a nad oedd y rheoliadau yn caniatáu gwneud hynny.
- Eglurwyd fod pryder mawr o fewn y pentref a'r cyffiniau am y traffig a bod sawl man peryglus ar ei hyd, a bod nifer fawr o dai yn cael ei adeiladu yn y pentref ar hyn o bryd. Eglurwyd eto fod y broblem yn bodoli ers blynyddoedd maith, ers tua 2006 pan wnaethpwyd y ffordd osgoi, a bod sawl ymgais aflwyddianus wedi bod ar ol hynny.
- Dywedodd ei bod am ei gynnwys ar y Mapiau Teithio Llesol flwyddyn nesaf (2021), nad oedd y drws wedi cau o bell ffordd, a'i fod yn gefnogol iawn i'r cynllun ond nad oedd yn cyrraedd y meini prawf oherwydd cyllid a'i bod yn gorfod gwneud cais am grant i'w ariannu.

Fe wnaeth y Clerc ei ffonio fo'r bore wedyn, i ddiolch ac ymddiheuro ein bod wedi gorfod gorffen braidd yn ddi-symwth, ond roedd yn deall mai 40 munud oedd gennym i drafod y mater.

Roedd yn dweud byddai'r gwaith yn costio o leiaf tua £400,000.00, a bod y broses gyfreithiol hefo'r tir yn ddrud. Datgan siomedigaeth, gan ddisgwyl i weld beth a ddaw yn y dyfodol. **Gofynnwyd i'r Clerc son am hyn y rhifyn nesaf o'r Ffynnon.**

16. **Pencaenewydd/Sardis**

Cais cynllunio Bryn Helyg Ltd., Glasfryn, Llanaelhaearn - ar ddiwedd y cyfarfod diwethaf gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau "lle roedd y pit slyri yn mynd i fod". Derbyniwyd gwybodaeth gan yr Adran Cynllunio fod yr "ymgeisydd wedi datgan na fyddai yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw anifeiliaid na slyri". Derbyn.

17. **Llangybi**

a) **Arwydd bach 30 m.y.a rhwng Capel Helyg a Groeslon 'Refail, Llangybi** wedi ei ddymchwel. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd ond heb gael ateb eto. **Angen holi eto.**

b) Ymholiad os oes bwriad gan Cyngor Gwynedd i orffen y gwaith ddechreuwyd ar y **llwybr o Ffynnon Gybi i Bont y Merched** yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol? **Y Clerc wedi holi Mr Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ac wedi derbyn yr ateb yma cyn y cyfarfod**
"Yn anffodus bydd rhaid disgwyl tan y flwyddyn ariannol newydd rŵan cyn gallu gweithredu ar unrhyw waith i wella'r llwybr yma." Derbyn.

18. **Enwau lleol** - ystyried gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol. Y Clerc wedi anfon y rhestr sydd wedi cael ei dderbyn at y cynghorwyr, a penderfynwyd gwneud rhai ohonynt eleni, a rhai flwyddyn nesaf. Hefyd, roedd y Cadeirydd am chwilio am brisiau ar gyfer yr arwyddion. Angen trafod pa enwau oedd am gael ei gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol yma/nesaf. **Cynigiwyd y byddai'n well gofyn wrth grefftwr lleol wneud 'arwydd', ond byddai angen gofyn am wahanol brisiau, a bod angen i'r Clerc holi yr Adran Cynllunio.**

Materion Ariannol

19. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 03.12.2020. Derbyn.

20. **Cyfarfod Cyllid/Busnes** - a gynhaliwyd 12.11.2020 - bydd y cofnodion yn cael ei anfon at bawb cyn y cyfarfod fis Ionawr 2021. Derbyn.

21. **Gosod Praesept 2021/2022** - Trafodwyd y mater yn ein Pwyllgor Busnes, ar 12.11.2020, a penderfynwyd gofyn am £18,000.00, sef yr un ffigwr a llynedd, cyn belled a fod pawb yn y prif gyfarfod yn cytuno. Fe wnaeth pawb gytuno i dderbyn yr argymhelliad i ofyn am £18,000.00 eto. **Bydd angen i'r Clerc hysbysu Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd cyn 29.01.2021.**

22. Gohebiaeth gan Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ynglŷn â swm priodol gwariant o dan Adran 137 (1) o Ddeddf 1972, yn caniatáu i'r Cyngor Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch. Mae hyn os bydd y Cyngor yn ystyried bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled a bod y gost yn gyson â'r budd. Yr uchafswm y gellir ei wario ar

gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 fydd £8.41 am bob etholwr yn lle £8.32 eleni. Mae 1518 o etholwyr ar y gofrestr yng nghymuned Llanystumdwy. **Derbyn.**

23. Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019-20.

Y Clerc heb dderbyn ymateb gan yr Archwilwyr Allanol ar ol iddi ymateb ar 13.10.2020. **Derbyn.**

24. Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor- y Clerc wedi trefnu i roi hysbyseb yn rhifyn mis Tachwedd, a Rhagfyr o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau a'n gwefan gyda dyddiad cau 15ed o Ionawr 2021. **Derbyn.**

25. Taliadau BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 03.12.2020:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
Archwilio mewnol, Cyngor Gwynedd	Archwilio (007950C0014406L)	<u>145.00</u>	<u>29.00</u>	<u>174.00</u>	<u>174.00</u>
Criccieth Cleaning Ltd	Glanhau arosfan bysiau Hydref 2020 (2769)	<u>166.50</u>	<u>33.30</u>	<u>199.80</u>	<u>199.80</u>

Cyflog mis Tachwedd 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2020 35 awr x £10.83 = £379.05	379.05 - Llai treth £76 = £303.05	<u>303.05</u>	<u>303.05</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2020	380.00 x 20% = £76.00	<u>76.00</u>	<u>76.00</u>
Costau'r Clerc Tachwedd 2020	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

26. Elusen William Ellis – trafodwyd y cais am gyfraniad o'r Elusen a dderbyniwyd cyn 30.11.2020 hefo Cyngorwyr Llanystumdwy a oedd yn bresennol, sef Cyngorwyr Naomi Jones, Gareth Davies, Sian Owen a Sion Aled Jones. Roedd hyn yn sgîl rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd 2020. Mae'r manylion arwahân gyda gohebiaeth yr Elusen gan y Clerc, a bydd y Cyngorydd Naomi Jones yn ei llofnodi a'r siec ar 06.12.2020. **Derbyn.**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau 07.01.2021, drwy 'Zoom'.